

"A ddylwn i fod yn cyflawni tasgau gweinyddol yn rheolaidd?"

Nid yw cyflawni tasgau gweinyddol yn ddefnydd priodol o amser athrawon na darlithwyr. Mae hynny wedi'i nodi'n statudol ar gyfer athrawon yn y Ddogfen Cuflog ac Amodayau Athrawon Ysgol. Staff gweinyddol ac ategol ddylai fod yn gyfrifol am gyflawni tasgau o'r fath. Mae'r defnydd o staff ategol i gyflawni'r fath dasgau yn rhyddhau athrawon a darlithwyr ar gyfer eu priod waith o addysgu.

I weld rhestr llawn o'r math o dasgau gweinyddol, clerigol a threfniadol nad yw'n rhesymol disgwyl i athro neu ddarlithydd eu cwblhau, lawrlwythwch taflen wybodaeth UCAC: [Tasgau Gweinyddol Clerigol a Threfniadol](#).